CYNLLUN STRATEGOL 2021-2026
CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU
AR GYFER PÊL-DROED
YNG NGHYMRU



# EIN CYMRU.

# CYNNWYS


3 Rhagair

4 Cynllun strategol uchelgeisiol a byw
- 5 Adeiladu ar ein cyraeddiadau
- 7 Datblygu cynllun strategol

8 Datblygu cadernid mewn byd sy'n newid yn gyflym
- 8 Gyda'n gilydd, gallwn ymgyrraedd yn uwch
- 10 Ein heriau

12 Gweithio tuag at 2026 a thu hwnt: gweledigaeth ar gyfer pêl-droed Cymru
- 12 Cynllun clir ag iddo ffocws pendant
- 13 Ein gweledigaeth
- 18 Amcanion strategol: ein nodau ar gyfer 2026
- 20 Galluogwyr
- 21 Cyflawni'r cynllun
- 21 Tracio cynnydd
- 22 Cerrig milltir allweddol erbyn 2026

24 Gwireddu ein cynllun
- 24 Ein diben
- 26 Ein gwerthoedd
- 28 Mwy na gêm
- 29 Gorau Chwarae Cyd Chwarae
- 30 Ein rhwydwaith o bartneriaid byd-eang a lleol




Ein gweledigaeth yw creu cenedl bêl-droed sy'n arwain y ffordd; lle mae'r gêm yn gynhwysol, hygyrch a llwyddiannus. O bêl-droed yn y parc i lwyfan y byd, dyma gynllun strategol ar gyfer Cymru leol fyd-eang.

**Dyma ein Cymru ni.**

# RHAGAIR

Rydym yn falch o gyflwyno **Ein Cymru** – y weledigaeth a'r cynllun strategol newydd ar gyfer pêl-droed yng Nghymru. Bydd y cynllun chwe blynedd cyffrous ac uchelgeisiol hwn yn llywio ein gwaith hyd at 2026, pan fydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n dathlu canrif a hanner ers ein sefydlu.

Cafwyd llwyddiant sylweddol ym myd pêl-droed Cymru dros y cylch strategol diwethaf, ond mae cymaint mwy i'w gyflawni. Mae ein gweledigaeth yn syml. **Rydym eisiau bod yn genedl bêl-droed sydd ar flaen y gad ar lefel fyd-eang ac ar lefel leol. Bwriadwn sicrhau mai pêl-droed yw'r gamp fwyaf cynhwysol, hygyrch a llwyddiannus yng Nghymru,** gan gystadlu'n gyson â'r goreuon yn y byd. Dylai pob agwedd ar y profiad pêl-droed fod yn un gadarnhaol, yn destun mwynhad yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn creu balchder yn ein gwlad.

Bydd cyflawni hyn yn galw am ffocws o'r newydd ar ein hamcanion strategol, sef conglfeini'r gêm. Rydym yn cydnabod bod angen gwella'n barhaus. Wrth geisio rhagoriaeth, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â'n haelodau a'n rhanddeiliaid i hyrwyddo a datblygu pêl-droed yng Nghymru a thu hwnt. Mae tyfu'r gêm yn golygu darparu profiad hyblyg, cynhwysol a deniadol, a chydnabod lle mae gennym le i wella o hyd. Adnewyddwn ein blaenoriaeth i sicrhau bod pêl-droed i ferched yn parhau i ehangu a llwyddo. Yr un mor bwysig yw sicrhau bod pêl-droed yn gamp i bob ethnigrwydd, gallu a chymuned.

Ein pobl yw'r peth pwysicaf. Mae hyn yn golygu canolbwyntio mwy ar wrando ar ein cyfranogwyr ac ymestyn allan at gynulleidfaoedd newydd. Bydd datblygu rhaglenni dysgu ac addysgu o lawr gwlad hyd at y lefel uchaf yn ein helpu i fod yn weithlu cydnerth, perthnasol a chynrychioliadol.

Ymfalchïwn yn y sylfeini hyn ac ymdrechwn yn barhaus i wella a thyfu pob lefel o'r gêm. Bydd cyflawni'r amcanion hyn erbyn 2026 yn ein rhoi ar y llwybr i wireddu ein gweledigaeth hirdymor i bêl-droed yng Nghymru: ansawdd a llwyddiant lleol a byd-eang.

Steve Williams
**Llywydd**
**Cymdeithas Bêl-droed Cymru**

# CYNLLUN STRATEGOL UCHELGEISIOL A BYW

Daw **Ein Cymru** ar adeg o gyfle enfawr i bêl-droed yng Nghymru. Bydd y strategaeth uchelgeisiol, fyw hon yn ein galluogi i fod yn sionc a hyblyg mewn byd sy'n newid yn gyflym, fel y gallwn dyfu'r gêm o lawr gwlad yr holl ffordd hyd at bêl-droed ryngwladol o'r safon uchaf.

**Bydd tri gwerth allweddol yn sail i bopeth a wnawn: rhagoriaeth, teulu a pharch.** Byddant yn ein llywio ym mhob agwedd ar ein gwaith. **Crëwn ddiwylliant o berfformio ar y lefel uchaf** ar y cae ac oddi ar y cae sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd bob dydd. Rydym yn adeiladu teulu pêl-droed sy'n amrywiol, medrus a chroesawgar, ac sy'n hybu rhagoriaeth, uniondeb, cynwysoldeb a chwarae teg.

Denwn fwy o fuddsoddiad ar ffurf arian, amser a phobl, a'i ganolbwyntio ar feysydd twf drwy ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wneud yn siwr ein bod yn cyflawni ein hamcanion.

Cydweithio â phartneriaid gwych yn lleol ac yn fyd-eang yw'r unig ffordd y gallwn fanteisio'n llawn ar y cyfle sydd o'n blaenau.

Daeth y teulu chwaraeon at ei gilydd yn ystod cyfnod heriol Covid-19 ac rydym yn awyddus yn awr i adeiladu ar y berthynas gyda sefydliadau megis Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru er mwyn ymestyn cyrhaeddiad a darparu gwell canlyniadau gyda'n gilydd ar gyfer Cymru gyfan.

Gan ymdrechu i wneud yn siwr bod pêl-droed yn cyflawni'i photensial ym mhob cymuned yng Nghymru, mae angen i Gymdeithas Bêl-droed Cymru fod yn adweithiol a rhagweithiol a meddu ar strwythurau a systemau cenedlaethol a rhanbarthol modern. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gynyddu a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd i alluogi gwell llif gwaith a phenderfyniadau busnes.

Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn llwyddiannus yn cryfhau'r sylfeini ar gyfer twf pellach yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn falch o'n gêm, ac rydym eisiau pwysleisio ei manteision i bawb ym mhobman.

Gan ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd gennym a chan fod yn ddigon penderfynol i gyfoethogi'r gêm yng Nghymru ymhellach, galwn ar ein teulu pêl-droed – yma yng Nghymru a thramor – i ymuno â ni ar daith i fentro'n fawr a breuddwydio'n fwy.

Noel Mooney
**Prif Weithredwr**
**Cymdeithas Bêl-droed Cymru**





# MWY NA GÊM

## ADEILADU AR EIN CYRAEDDIADAU

Yn ystod y cylch strategol diwethaf, gwelsom lwyddiant enfawr ar wahanol lefelau'r gêm a chyflawnwyd ein huchelgais i fynd â phêl-droed Cymru i lwyfan y byd. Dangosom nad gêm yn unig yw pêl-droed.

Yn 2015, cymhwysodd prif dîm y dynion i brif dwrnamaint am y tro cyntaf mewn bron i 60 mlynedd. Gwnaeth bron i ddau draean o'r boblogaeth weld y gemau, a bu 200,000 o gefnogwyr yn dathlu ar strydoedd Caerdydd wrth i'r tîm ddychwelyd o'u taith i rownd gyn-derfynol EURO 2016. Dangosodd y profiad hwn gymaint o botensial sydd i bêl-droed yng Nghymru.

Lai na blwyddyn yn ddiweddarach, roedd llygaid y byd ar Gymru unwaith yn rhagor wrth i ni groesawu'r digwyddiad chwaraeon unigol mwyaf yn 2017, Gemau Terfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA. Dros gyfnod o bedwar diwrnod, daeth mwy na 300,000 o gefnogwyr i Gaerdydd, a gwyliwyd gemau'r dynion a'r merched yn fyw gan gynulleidfa deledu fyd-eang mewn mwy na 200 o wledydd.

Cymhwysodd Cymru unwaith eto i EWRO 2020 gan gyrraedd Rownd yr 16. Dyma'r tro cyntaf erioed i ni gymhwyso ddwywaith yn olynol. Aeth prif dîm y dynion hefyd yn ei flaen i lwyddo yng Nghynghrair Cenhedloedd UEFA, gan ennill dyrchafiad i Gynghrair A yn 2020.

Mae datblygiad a chryfder ein timau ieuenctid cenedlaethol hefyd yn glir, wrth i garfannau'r dynion dan 17 a 19 ynghyd â'r merched dan 19 gymhwyso ar gyfer Rowndiau Elît UEFA yn ystod y cylch strategol diwethaf.

Cyrhaeddom nifer o gerrig milltir allweddol eraill hefyd, gan gynnwys ailstrwythuro'r pyramid domestig, trawsnewid strwythurau llywodraethu'r gymdeithas, bwrw ymlaen â'n gweledigaeth o rwydwaith o gyfleusterau o safon fyd-eang, a chynyddu nifer y merched sy'n chwarae'r gêm.

A ninnau'n awyddus i adeiladu ar yr adegau cofiadwy a'r cyflawniadau hanesyddol, rydym yn cychwyn ar y cylch strategol newydd ag egni a hyder o'r newydd, a chwant i gyflawni hyd yn oed mwy. Gêm a fydd hyd yn oed yn fwy hygyrch a phleserus; gêm y bydd rhagor o bobl yn cymryd rhan ynddi yn amlach, ar draws croestoriad eang o gymdeithas a chenedlaethau. Gêm a fydd yn gwella bywydau pobl ac yn cyfrannu at stori sy'n ysbrydoli ymhell y tu hwnt i gae pêl-droed.





## DATBLYGU CYNLLUN STRATEGOL

Rydym wedi bod yn cydweithio i adolygu strategaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer pêl-droed yng Nghymru cyn datblygu cynllun strategol chwe blynedd newydd.

Er bod themâu ac amcanion sy'n parhau'n gyson o'r cylch strategol blaenorol, rydym wedi archwilio ffyrdd newydd a gwahanol o weithio wrth i ni gynllunio at bennod newydd ar gyfer pêl-droed yng Nghymru.

Rydym wedi gwrando ar y sawl sy'n chwarae yn ogystal â'r sawl sy'n gwneud y cyfan yn bosib drwy ddulliau cymysg gan gynnwys ymgynghoriad helaeth. Un sy'n drylwyr, yn canolbwyntio ar weithredu, ac yn gyfforddus â dadl, craffu a hunan-fyfyrio.

Nid oes dim cystal â chynnwys ein hamrywiaeth eang o randdeiliaid a'u mewnbwn, gan gynnwys chwaraewyr, hyfforddwyr, rheolwyr, cefnogwyr, clybiau, cynghreiriau, swyddogion, gwirfoddolwyr, pwyllgorau, staff, athrawon, rhieni, newyddiadurwyr, noddwyr a sefydliadau partner.
Yn ogystal â gweithio gyda'r teulu pêl-droed, rydym wedi ceisio deall safbwyntiau drwy gydol y broses drwy ystyried arbenigedd a phrofiad cynrychiolwyr o fyd busnes a byd y campau yng Nghymru.

Cawsom y cyfle i brofi ein dyheadau a'n ffyrdd o weithio drwy gydweithio'n fuddiol â menter Ffederasiynau Pêl-droed y Dyfodol, UEFA. Rydym hefyd wedi adeiladu ar wahanol adolygiadau manwl a gynhaliwyd yn ystod cyfnod datblygu'r strategaeth, fel pêl-droed bach, ymchwil i farn rhanddeiliaid, a strwythur gêm y merched.

Gobeithiwn fod symlrwydd a ffocws yn ein galluogi i fwrw ymlaen â'n gweledigaeth ar gyfer pêl-droed yng Nghymru.



# ANGERDD, YSBRYD A BALCHDER

# DATBLYGU CADERNID MEWN BYD SY'N NEWID YN GYFLYM

## GYDA'N GILYDD, GALLWN ANELU YN UWCH

A ninnau'n byw drwy gyfnod o newid cyflym lle mae tirwedd busnes a phêl-droed yn ymdonni'n gyson, mae angen i Gymdeithas Bêl-droed Cymru fod yn gadarn ac ystwyth er mwyn cyflawni'r amcanion a'r nodau sydd wedi'u cyflwyno yn y cynllun hwn.

Wrth inni ddefnyddio'r cynnydd a wnaed yn sylfaen i sicrhau llwyddiannau pellach, bydd angen i ni oresgyn yr achos mwyaf sylweddol o darfu ar galendr chwaraeon y byd ers yr Ail Ryfel Byd – pandemig Covid-19. Mae'r tarfu a'r ansicrwydd a ddaw yn ei sgil i bêl-droed a chymdeithas yn ei chyfanrwydd yn enfawr ac anochel.


Gyda'r pandemig byd-eang yn gefndir, ni allwn anwybyddu'r alwad i weithredu gan fudiadau Gwrthryfel Difodiant ac Mae Bywydau Du o Bwys. Galwad nid yn unig i uno yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a hiliaeth, ond i ddatgymalu systemau gorthrwm ac anghydraddoldeb sy'n parhau i rwystro cymunedau di-lais sydd wedi'u tangynrychioli rhag derbyn cyfleoedd ar draws holl feysydd pêl-droed a chymdeithas. Ein cyfrifoldeb ni fel cymdeithas yw ateb yr alwad hon.

Eto'n aml mewn adegau o argyfwng fel yma, gwelwn wir gryfder ein cymunedau yng Nghymru a thu hwnt. Lle y caiff gwahaniaethau eu dathlu, lle y caiff lleisiau eu clywed, lle y caiff newid ei groesawu.

Er mor anochel yw'r angen i esblygu ein model busnes yn barhaus, mae angen i ni ganolbwyntio ar ymatebolrwydd drwy fonitro, adolygu ac addasu ein hymdrechion yn gyson. Rhaid i ni ymrwymo i gymryd camau pendant a defnyddio ein llwyfan i wynebu'r heriau y mae'r realiti presennol yn eu cyflwyno i ni. A ninnau'n gweithredu mewn tirwedd sy'n newid o hyd, ni ddylai arweinyddiaeth a llywodraethu fod yn bethau a wneir y tu allan i'w cyd-destun.

Gyda'n gilydd, gallwn anelu yn uwch ar gyfer pêl-droed yng Nghymru, yn lleol ac yn fyd-eang.





# EIN HERIAU

Yn ein hymdrech i barhau'n gystadleuol tra'n creu twf a chynaliadwyedd, rydym yn wynebu'r heriau canlynol:

## CYMDEITHASOL-WLEIDYDDOL

- Ansicrwydd a newidiadau anrhagweladwy i gyfranogiad torfol a digwyddiadau chwaraeon yn sgil pandemig Covid-19.
- Ansicrwydd cymdeithasol yn sgil mudiadau cymdeithasol byd-eang yn cwestiynu'r status quo cymdeithasol-wleidyddol a chyfiawnder, gan gynnwys LGBTQ+, Mae Bywydau Du o Bwys a Gwrthryfel Difodiant.
- Ansicrwydd gwleidyddol yn dilyn Brexit a chynnal perthynas â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.
- Yr angen i weithredu'n awr ar yr argyfwng hinsawdd i ddiogelu'r amgylchedd tra'n cyflawni amcanion uchelgeisiol.
- Yr angen i ddarparu ar gyfer sylfaen o gefnogwyr a chyfranogwyr mwy amrywiol yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau i frethyn diwylliannol Cymru.

## LLYWODRAETHU

- Anghysondeb yn nulliau llywodraethu'r gêm ar lefel leol.
- Yr angen i ymgysylltu, gwrando a chynnwys yr holl randdeiliaid yn y sgwrs.
- Cydbwyso sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i ddiwallu anghenion y sefydliad a chynrychioli'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.
- Yr agen i oresgyn ymddygiad negyddol a niweidiol (e.e. bwlio a gwahaniaethu) sy'n parhau ar bob lefel o bêl-droed.



## CYSTADLEURWYDD

- Cryfder a datblygiad cystadleuaeth ryngwladol ynghyd â ffactorau economaidd-gymdeithasol.
- Cost uchel ac ansawdd rhai cyfleusterau a'r graddau y maent ar gael.
- Y gallu i dyfu a datblygu pob agwedd ar y gêm oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael.

## YMGYSYLLTU

- Yr angen am atebion mwy arloesol i ddarpariaeth chwaraeon er mwyn sicrhau cynnydd mewn cyfranogiad.
- Effaith cynnydd technolegol ar sut mae pobl yn cyfranogi ac yn ymgysylltu â chwaraeon ac endidau chwaraeon.
- Effaith tueddiadau defnyddwyr ar ddyfodol cyfranogiad chwaraeon.
- Cefnogwyr yn gynyddol yn disgwyl profiadau wedi'u teilwra'n bersonol.
- Tirwedd y cyfryngau yn newid yn gyflym a gwahanol alwadau yn cystadlu am sylw.
- Diffyg sylw yn y cyfryngau cenedlaethol i'r gêm ddomestig.
- Ansawdd gwael caeau glaswellt cyhoeddus a'r pafiliynau.

# GWEITHIO TUAG AT 2026 A THU HWNT: GWELEDIGAETH AR GYFER PÊL-DROED CYMRU

## CYNLLUN CLIR AG IDDO FFOCWS PENDANT

Er bod ein gweledigaeth hirdymor yn ymestyn dros y 10 i 30 mlynedd nesaf, bydd yr amcanion strategol a'r galluogwyr rydym wedi'u diffinio yn cynorthwyo a llywio ein gweithgareddau hyd at 2026.






# EIN GWELEDIGAETH

## O BÊL-DROED YN Y PARC I LWYFAN Y BYD – GWELEDIGAETH AR GYFER CYMRU LEOL FYD-EANG

Rydym eisiau gweld pêl-droed yn arwydd o hunaniaeth Cymru. Gêm a gaiff ei dathlu, sy'n ysbrydoli ac uno ein cenedl ac sy'n ennyn balchder yng Nghymru.

Ar lefel fyd-eang, ymdrechwn i **greu cenedl bêl-droed flaenllaw.** Ein gweledigaeth yw cystadlu'n gyson â'r goreuon yn y byd ac ennyn balchder ein cenedl. Rydym eisiau i'n timau cenedlaethol gyrraedd Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd a Phencampwriaeth Ewrop yn gyson, nid yn unig gan greu hanes ond ffurfio dyfodol Cymru hefyd gan osod y safon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae elfennau byd-eang a lleol y gêm yn cydblethu: mae'r gêm leol yn bwydo i mewn i'r gêm ryngwladol ac mae cyraeddiadau rhyngwladol yn arwain at lwyddiant pellach ar ein caeau chwarae cymunedol. Bydd ein cenhadaeth yn parhau hyd nes mai **pêl-droed yw'r gamp fwyaf cynhwysol, hygyrch a llwyddiannus ym mhob rhan o Gymru.**

Ar ein taith, byddwn yn creu profiadau pêl-droed cofiadwy a phleserus sy'n cyfoethogi bywydau pobl ac yn eu grymuso i fentro'n uchel a breuddwydio hyd yn oed yn uwch.

## MAE EIN GWELEDIGAETH YN SYML: CYMRU LEOL FYD-EANG.

# AMCANION STRATEGOL: EIN NODAU AR GYFER 2026

## CYMRU AR LWYFAN Y BYD

1. Prif dîm y merched yn cymhwyso ar gyfer prif dwrnamaint yn sgil llwybr, gwasanaethau cymorth ac amserlen ryngwladol fwy cystadleuol ac effeithiol i chwaraewyr elît.

2. Prif dîm y dynion yn cymhwyso i Bencampwriaethau'r Byd ac Ewrop o ganlyniad i amgylchedd o berfformio ar y lefel uchaf ar y cae ac oddi ar y cae.

3. Gwneud i gemau Cymru fod yn ddigwyddiadau y mae'n rhaid eu gweld drwy greu profiadau cofiadwy i gefnogwyr sy'n ennyn balchder ac angerdd yng Nghymru.

4. Clybiau Cymru Premier yn cyrraedd camau grwpiau cystadlaethau clybiau UEFA, a Chymru i fod â'r targed o fod â chyfernod yn y 40 uchaf yng Nghynghrair UEFA ar ôl cyflawni strategaeth glir.

5. Pencampwyr Adran Premier yn cyrraedd ail rownd Cynghrair Pencampwyr Merched UEFA o ganlyniad i godi safonau drwy'r gêm ddomestig newydd a chyflawni strategaeth y merched.

6. Diolgelu rownd derfynol un o brif gystadleuaeth clybiau UEFA ar ôl sicrhau cymorth ariannol gyda chais llwyddiannus.

7. Ennill y cais i lwyfannu Cwpan y Byd FIFA 2030 ar ôl datblygu astudiaeth ddichonoldeb a gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau cyfagos.

8. Sicrhau twrnameintiau terfynol timau cenedlaethol a rowndiau cynharach twrnameintiau UEFA ar ôl archwilio dichonoldeb digwyddiadau o'r fath a datblygu lleoliadau sy'n ateb y gofynion technegol.

9. Cynnal cynadleddau arbenigol UEFA a FIFA neu ddigwyddiadau ar fformat gwahanol a fydd o bwysigrwydd pennaf i dwf y gêm yng Nghymru.

10. Datblygu i fod yn genedl hyfforddi o safon fyd-eang drwy ddefnyddio dealltwriaeth ac elfennau arloesol newydd sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol o ran cynnwys a chyflawni.

11. Cynyddu nifer ac ansawdd rheolwyr a hyfforddwyr a addysgwyd gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru sy'n ymwneud â thimau ieuenctid cenedlaethol, y gêm broffesiynol a'r strwythur domestig drwy ein darpariaeth addysg flaengar i hyfforddwyr.

12. Dyfarnwr sydd wedi cofrestru yng Nghymru yn gweinyddu mewn twrnamaint Rowndiau Terfynol UEFA ar ôl datblygu'r cymorth sydd ar gael i swyddogion.

13. Cymru yn ganolog i benderfyniadau pêl-droed y byd gyda dirprwyaeth o Gymru ar Bwyllgor Gweithredol UEFA neu Gyngor FIFA.



## DARPARIAETH CHWARAE HYBLYG, CYNHWYSOL A DENIADOL

14. Cryfhau hyder teulu pêl-droed Cymru drwy ailddylunio gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â'r tarfu yn sgil pandemig Covid-19 a rhoi lle canolog i bêl-droed llawr gwlad yn ein gêm.

15. Ehangu apêl pêl-droed drwy gyfrwng fformatau newydd a gwahanol o'r gêm yn seiliedig ar anghenion a dyheadau pobl.

16. Dylunio a gweithredu rhwydwaith cenedlaethol o fentrau gydag ymagwedd glir a deniadol at bontio a chadw ar lwybr pêl-droed cynhwysol.

17. Datblygu a chyflawni rhaglenni addysg integredig a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn cyfranogiad rhwng y rhywedda a rhoi i bob merch y cyfle i gymryd rhan mewn pêl-droed.

18. Sicrhau bod pêl-droed yn hygyrch a fforddiadwy i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol, ac apelio at bob elfen o'r gymdeithas yng Nghymru ac ymgysylltu â hwy'n weithredol.

19. Cynnal cystadlaethau atyniadol llawn ysbrydoliaeth i wella clybiau a safon pêl-droed.

20. Creu pyramid domestig clir a chynaliadwy i ferched a datblygu'r gynghrair genedlaethol i fod yn blatfform datblygu i'n chwaraewyr rhyngwladol.

21. Creu clybiau cryfach a chynaliadwy drwy wasanaethau ariannol a datblygu busnes sy'n gwella strwythurau, arferion a dulliau gwneud penderfyniadau.

# AMCANION STRATEGOL: EIN NODAU AR GYFER 2026

## CYMDEITHAS GYNALIADWY I'R DYFODOL

**22.** Diogelu integriti'r gamp drwy reolau a rheoliadau y mae modd ymddiried ynddynt, polisïau cadarn a gweinyddiaeth effeithlon i'r gêm gyfan.

**23.** Datblygu sefydliad sionc, ymatebol ac amrywiol ag iddo strwythurau canolog a rhanbarthol modern sydd wedi'u grymuso ac wedi'u darparu â'r adnoddau i gyflawni cynllun strategol pêl-droed Cymru.

**24.** Datblygu Cymdeithas Bêl-droed Cymru i fod yn gynrychioliadol o gêm amrywiol, gynhwysol a hygyrch drwy strwythurau effeithiol y mae modd ymddiried ynddynt.

**25.** Cryfhau sefyllfa ariannol Cymdeithas Bêl-droed Cymru drwy arbedion ar gostau yn ogystal â ffynonellau incwm newydd ac amrywiol er mwyn cynyddu refeniw.

**26.** Rhoi lle canolog i'n teulu pêl-droed wrth ryngweithio bob amser drwy sicrhau proffiad deinamig a llyfn wedi'i deilwra mewn ffordd unigryw.

**27.** Creu delwedd gadarnhaol o bêl-droed a Chymru ar lefel leol a byd-eang drwy gynnwys llawn gwybodaeth sy'n ysbrydoli.

**28.** Datblygu i fod y brand chwaraeon dwyieithog mwyaf adnabyddus yng Nghymru sy'n ysbrydoli pobl i ddathlu eu hunaniaeth a'u diwylliant yn agored.

**29.** Cysylltu teulu pêl-droed Cymru â'n chwaraewyr rhyngwladol presennol drwy ddigwyddiadau cymunedol a chynnwys digidol.

**30.** Dod yn sefydliad cysylltiedig sy'n arloesi a chydweithio drwy bartneriaethau effeithiol, a thrwy ddefnyddio dealltwriaeth a galluoedd technolegol.

**31.** Cyfrannu at Gymru iach, hapus a chynaliadwy drwy gysylltiadau cadarn rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a phartneriaid allweddol eraill.

**32.** Dod yn sefydliad blaengar sy'n eiriol ar faterion byd-eang a lleol sy'n effeithio ar y gêm ac ar ein cymunedau drwy ddatblygu a chyflawni ein strategaeth cynaliadwyedd.

**33.** Ymrwymo i well yfory drwy ddeall effaith amgylcheddol y sefydliad yn well a chymryd camau i leihau ôl-troed y gêm yn gyffredinol.

**34.** Cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y gêm yng Nghymru drwy ffurfio'r diwylliant sefydliadol a datblygu cynllun clir i ledaenu gwerthoedd craidd pêl-droed Cymru.



## TEULU PÊL-DROED AMRYWIOL A MEDRUS SY'N CHWARAE EU RHAN

**35.** Tyfu teulu pêl-droed dawnus, amrywiol a chadarn sy'n chwarae eu rhan drwy gynllun rheoli adnoddau cydlynol a dulliau dysgu digidol ac arloesol.

**36.** Datblygu rhaglenni addysg perthnasol a deniadol ar gyfer amrywiaeth o rolau ar bob lefel yn y gêm.

**37.** Gwella ymgysylltiad ledled Cymru er mwyn cynyddu nifer y swyddogion ym mhob rhan o'r wlad drwy gynllun recriwtio a chadw effeithiol wedi'i dargedu.

**38.** Datblygu dealltwriaeth effeithiol drwy ddadansoddi data, monitro chwaraewyr a datblygu hyfforddwyr.

**39.** Gosod safonau a chyflawni mentrau sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, integriti, cynhwysiant a chwarae teg.

**40.** Hyrwyddo cyfleoedd a rhannu arferion gorau gydag aelodau'r teulu pêl-droed drwy gyfathrebu cadarnhaol, rhagweithiol a chyson.

**41.** Cael ein cydnabod gan bob cymuned yng Nghymru fel camp groesawgar a chynhwysol drwy ein hymrwymiad diwyro i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ar bob lefel yn y gêm.

**42.** Gwella'n barhaus ein darpariaeth iechyd a lles i aelodai'r teulu pêl-droed drwy gyngor, addysg a gofal arbenigol.

# AMCANION STRATEGOL: EIN NODAU AR GYFER 2026

## CYFLEUSTERAU SY'N YSBRYDOLI AC SY'N BAROD AR GYFER Y DYFODOL

43. Datblygu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion timau cenedlaethol a gofynion cystadlaethau FIFA / UEFA.

44. Creu clybiau cryfach a mwy cynaliadwy drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau sy'n gwella cyfleoedd hyfforddi a chystadlu a chefnogi partneriaethau cymunedol gweithredol.

45. Partneru gyda Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol i gynnig cyfleusterau o safon i bobl o bob oed ledled Cymru.

46. Darparu mwy o gyfleoedd i gyfranogwyr ar gyfer pob grwp drwy ddatblygu cyfleusterau hygyrch a chynhwysol o ansawdd uchel.

47. Datblygu modelau o gyfleusterau newydd sy'n gwasanaethu anghenion y gymuned ehangach yn ogystal â chreu incwm i'r gêm a'i chlybiau.

48. Cynorthwyo i ddatblygu clybiau cryfach drwy fodelau rheoli cyfleusterau a chynnal a chadw caeau chwarae.

49. Meddwl yn y tymor hir drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol.

50. Cynyddu buddsoddiad yn y gêm ar ôl datblygu achos busnes a phroses gweinyddu grantiau drylwyr ac effeithiol.



## LLWYBRAU DILYNIANT CLIR AC EFFEITHIOL

51. Datblygu llwybrau clir ac effeithiol i fechgyn a merched er mwyn iddynt ennill cymaint o gapiau â phosibl a'r cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau perthnasol ar y lefelau priodol.

52. Gwella hunaniaeth ein 'Ffordd Gymreig' ar draws y teulu pêl-droed yng Nghymru i gynorthwyo a datblygu'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr rhyngwladol Cymru.

53. Sicrhau'r potensial mwyaf i'n chwaraewyr mwyaf dawnus drwy fonitro chwaraewyr yn briodol a datblygu gwasanaethau cymorth o safon fyd-eang ar draws yr holl dimau ieuenctid cenedlaethol.

54. Sicrhau cysondeb wrth gymhwyso i dwrnameintiau Rowndiau Terfynol ac Elît Ewrop yn achos pob un o dimau ieuenctid cenedlaethol y dynion drwy gydweddu ein llwybr elît a'n gwasanaethau cymorth yn y gwersyll a'r tu allan i'r gwersyll.

55. Darparu rhaglen fwy cystadleuol o gemau rhyngwladol a domestig er mwyn paratoi chwaraewyr merched elît ar gyfer llwyddiant y tîm cenedlaethol drwy gynyddu amser cyswllt a neilltuo adnoddau ar gyfer adnoddau technegol a gwasanaethau cymorth.

56. Sicrhau'r cyfleoedd gorau i nodi a chadw chwaraewyr dawnus drwy integreiddio mesurau gwrthrychol ar sail perfformiad a gwella perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol ar draws y gêm broffesiynol a domestig.

57. Datblygu academïau trwyddedig cryfach yng Nghymru i gynorthwyo datblygiad chwaraewyr domestig i fechgyn a merched drwy gynorthwyo Penaethiaid Hyfforddi ac academïau rhanbarthol CBDC i ferched.

# GALLUOGWYR

Yn ystod y cylch strategol newydd hwn, mae'n hanfodol ein bod yn datblygu i ganolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau'n effeithiol tra'n adeiladu ar ein cryfderau sefydliadol presennol. Rydym wedi nodi pump o alluogwyr strategol allweddol i gynorthwyo ein strategaeth.

I sicrhau llwyddiant cynaliadwy, rydym wedi ymrwymo i gofleidio a datblygu'r galluogwyr canlynol:

## BUDDSODDI

Byddwn yn buddsoddi amser, arian ac arbenigedd i ddatblygu a thyfu'r gêm yng Nghymru drwy weithgareddau sy'n cydweddu â'r strategaeth. Byddwn yn sianeli'r buddsoddiad hwn i dargedu meysydd twf ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau llwyddiant hirdymor a sefydlogrwydd y gêm – ac yn cyflawni hyd yn oed mwy yn y dyfodol.

## DEALLTWRIAETH

Byddwn yn ymgorffori rhaglen o ymchwil a dealltwriaeth yn y broses o gynllunio busnes er mwyn llywio a gwerthuso mentrau allweddol. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu perthnasoedd cryfach â'r rhai sy'n ymwneud â'r gêm yng Nghymru a'r rhai nad ydynt eto'n ymwneud â hi, gan sicrhau bod ein gwaith yn effeithiol a hirhoedlog. Rydym eisiau parhau i ddysgu, deall ac archwilio.

## DELWEDD

Byddwn yn cyfoethogi a chryfhau delwedd pêl-droed Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth i ni wella ein gweithgareddau yn ddomestig a rhyngwladol. Rydym eisiau rhoi hwb i'r angerdd a deimlwn fel cenedl tuag at y gêm yng Nghymru, gan ein bod yn deall bod y ddelwedd sydd gan ein rhanddeiliaid yn dylanwadu ar eu cefnogaeth. Rydym yn ymdrechu i greu gêm fwy cynhwysol a byddwn yn diffinio dulliau cyson o ran defnyddio data, ymchwil a dealltwriaeth i fesur delwedd y sefydliad yn rheolaidd.

## YMGYSYLLTU

Byddwn yn ymgysylltu â chydweithio â phartneriaid lleol a rhyngwladol ar bob lefel o'r gêm i sicrhau ein siawns fwyaf o lwyddiant. Ymrwymwn i eirioli dros newid cadarnhaol a defnyddio ein dylanwad i herio'r status quo a chreu cyfleoedd gwell a thecach i unigolion, cymunedau a'r gymdeithas yn gyffredinol. Croesawn atebion digidol a ffyrdd gwahanol o weithio i greu cyfleoedd newydd ac ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd.

## SYSTEMAU

Nid gwella perfformiad yn y tymor byr yn unig a wnawn; byddwn yn gosod sylfeini ar gyfer twf cyson a chadarn yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gan harneisio dealltwriaeth a thechnoleg, byddwn yn cynyddu a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd, ac yn galluogi gwell llifoedd gwaith a phenderfyniadau busnes. Gweithiwn tuag at ddatblygu diwylliant cryf o weithredu mewn ffordd glyfar, arloesol ac ymatebol.



# CYFLAWNI'R CYNLLUN

Mae'r cynllun strategol hwn yn farciwr pwysig i Gymdeithas Bêl-droed Cymru a'n cyfeiriad i'r dyfodol, ac rydym yn rhoi'r sylw a'r adnoddau sydd eu hangen i wireddu ein gweledigaeth.

Bydd datblygu cynllun gweithredu llawn chwe blynedd yn egluro sut byddwn yn dod â'r cynllun yn fyw. Er mwyn iddo fod yn llwyddiannus, bydd yn rhaid i Gymdeithas Bêl-droed Cymru adolygu'r holl nodau ac uchelgeisiau yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau'n berthnasol ac yn diwallu anghenion pêl-droed mewn byd sy'n newid o hyd. Byddwn hefyd yn monitro a chyfathrebu ein cynnydd yn erbyn y cynllun strategol drwy adroddiadau blynyddol.

Er eu bod yn heriol, mae ein dyheadau hefyd yn gyflawnadwy, ac mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru ym ymrwymo i ddod â'n gweledigaeth yn fyw.

# TRACIO CYNNYDD

I sicrhau ein bod ar y llwybr cywir tuag at wireddu ein gweledigaeth, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn ymrwymo i fonitro cynnydd yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol drwy ddefnyddio cyfres o fesurau wedi'u diffinio'n dda.

Drwy dracio ac adolygu'r cynllun yn rheolaidd, byddwn yn gwneud yn siwr bod y nodau bob amser yn berthnasol a realistig yn ogystal â pharhau'n atebol am weithredu'r strategaeth.

Gan fynd ati'n rhagweithiol i fonitro'r prif elfennau sy'n gyrru perfformiad, bydd modd i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ddatblygu a gweithredu gwrthfesurau pan fydd digwyddiadau sydyn ac annisgwyl yn taflu cynlluniau oddi ar eu cwrs.

Bydd datblygu Dangosfwrdd y Gymdeithas yn dod â'r holl ddata yma yn fyw ac yn helpu'r Bwrdd a'r tîm gweithredol i ddeall yr wybodaeth mewn ffordd weledol.

# CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL ERBYN 2026

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi ymrwymo i fonitro cyflwr pêl-droed yng Nghymru i sicrhau llwyddiant parhaus y gêm, ar y cae ac oddi arno. Byddwn yn tracio cynnydd ein gwaith, a'i gyflwyno'n weledol, ar gyfer pob metrig sydd wedi'i ddiffinio o dan bum thema UEFA Grow.

## PERFFORMIAD

- Prif dîm y dynion yn cymhwyso i Gwpan y Byd FIFA 2022 neu 2026
- Prif dîm y merched yn cymhwyso i EWRO 2025 UEFA
- Prif dîm y dynion yn mynd y tu hwnt i rownd y grwpiau yn EWRO 2024 UEFA
- Clwb o Gymru yn cyrraedd cam grwpiau cystadleuaeth clybiau UEFA

## CYFRANOGIAD

- 150,000 o chwaraewyr cofrestredig
- 120,000 o chwaraewyr cofrestredig (77,161 yn 2021)
- 100,000 o chwaraewyr cofrestredig ymhlith y dynion (68,325 yn 2021)
- 20,000 o chwaraewyr cofrestredig ymhlith y merched (8,836 yn 2021)
- 30,000 o newidwyr gêm cofrestredig (16,438)
- 16,000 o hyfforddwyr cofrestredig (10,579 yn 2021)
- 12,500 o wirfoddolwyr cofrestredig mewn clybiau, cynghreiriau a Chymdeithasau Ardal (5,000 yn 2021)
- 1,500 o ddyfarnwyr cofrestredig (859 yn 2021)
- Canran y gynrychiolaeth o Gymunedau Ethnig Amrywiol yn uwch na chyfartaledd Cymru
- Canran y gynrychiolaeth sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru



## CYLLID

- Cymdeithas Bêl-droed Cymru i adrodd elw gweithredol blynyddol drwy ddyblu ei refeniw blynyddol
- Buddsoddi lleiafswm o £20+ miliwn yng nghyfleusterau pêl-droed Cymru

## DELWEDD

- Pêl-droed yn cael ei hystyried yn brif gamp Cymru (ail yn ôl ymchwil delwedd UEFA yn 2019)
- Cymru yn chwarae rôl ragweithiol mewn ennill cais ar ran y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon i gynnal Cwpan y Byd FIFA 2030
- Sicrhau bod Gêm Derfynol arall Clybiau UEFA yn cael ei chynnal yng Nghymru
- Cynnal cynadleddau arbenigol UEFA a FIFA neu ddigwyddiadau ar fformat gwahanol

## YMGYSYLLTU

- Cynnydd o 50% mewn ymgysylltiad a dilyniad ar draws platfformau digidol
- Sicrhau cydraddoldeb o 40% rhwng y rhyweddau ar Fwrdd Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- 75% neu fwy o brofiadau cadarnhaol o weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru (55% yn 2021)
- Twf o un flwyddyn i'r llall yn sgôr boddhad pêl-droed

# GWIREDDU EIN CYNLLUN

## EIN DIBEN

### ARWEINWYR SY'N CEISIO RHAGORIAETH – AR Y CAE AC ODDI ARNO – YN PARTNERU Â'N HAELODAU A'N RHANDDEILIAID ER MWYN HYRWYDDO, DATBLYGU A GOFALU AM BÊL-DROED YNG NGHYMRU A THU HWNT.

Cymdeithas Bêl-droed Cymru yw un o'r tair cymdeithas hynaf yn y byd. Fe'i sefydlwyd ym 1876 i feithrin, arwain a hyrwyddo budd pêl-droed yng Nghymru.

Fel aelod o FIFA ac UEFA, rydym wedi ymrwymo i feithrin y gêm yng ngoleuni chwarae teg yn fyd-eang, ac rydym yn warcheidwaid gweithredol o 'Ddeddfau'r Gêm' ynghyd â phedwar corff arall drwy IFAB.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pêl-droed yn creu profiadau cadarnhaol a chynhwysol a gaiff eu mwynhau'n lleol a chenedlaethol, a hyrwyddo'r gamp yng Nghymru drwy bwysleisio ei manteision i bawb ym mhobman.

Gwyddom fod angen datblygu a gwella'n barhaus, a rhaid i bêl-droed Cymru beidio ag aros ar ymyl y cae. Drwy wrando a gweithio gydag aelodau a rhanddeiliaid ein teulu pêl-droed, rydym yn ymdrechu i gynnig darpariaeth gynhwysol a hygyrch sy'n creu cyfleoedd i bawb ar bob lefel o'r gêm.

Drwy harneisio nerth pêl-droed a'r cyfan sydd gan y gamp i'w gynnig, byddwn yn gwneud gwahaniaeth i bob aelod, rhanddeiliad, cefnogwr a chymuned ledled Cymru a thu hwnt.



"

## Y WAL GOCH RYDYM NI'N EU GALW NHW

### PAN WELWN NI EU HANGERDD YN Y STADIWM, Y MILOEDD YN EU COCH, EIN LLIW NI, MAEN NHW'N EIN HYSBRYDOLI NI. RYDYM EISIAU IDDYN NHW YMFALCHIO YNOM NI.

*Gareth Bale*

# GWIREDDU EIN CYNLLUN

## | EIN GWERTHOEDD

Dyma ein credoau sylfaenol sy'n allweddol i gynorthwyo ein gweledigaeth ar gyfer pêl-droed yng Nghymru a'i diwylliant. Gwnawn ein gorau i'w hanrhydeddu a'u defnyddio nid yn unig i lywio pob agwedd ar ein gwaith, ond hefyd yn esiampl i bob aelod o deulu pêl-droed Cymru.

### RHAGORIAETH


Wynebwn bob her drwy fod yn benderfynol ac â sbardun i gyflawni hyd eithaf ein gallu ym mhopeth a wnawn. Dangoswn ymrwymiad, ysgogiad, disgyblaeth a dyfalbarhad, gan ddal ein hunain yn atebol am ganlyniadau. Ym mhob agwedd ar bêl-droed a busnes, ymdrechwn at ragoriaeth.

### TEULU

Hyrwyddwn ddiwylliant croesawgar, twymgalon lle mae pawb yn perthyn ac yn cael a'u cynnwys. Mae'r modd y daw pawb ynghyd yn nerthol, a thrwy'r nerth hwn byddwn yn parhau i ehangu ein teulu pêl-droed, gan groesawu unrhyw un sydd eisiau cyflawni pethau gwych i Gymru.

### PARCH

Credwn fod gwahanol syniadau, cryfderau, diddordebau a chefndiroedd diwylliannol yn sylfaenol i sicrhau llwyddiant. Byddwn yn ennyn parch eraill drwy ein hymrwymiad i fod yn agored, didwyll, moesegol a theg.



> "RYDYM NI WEDI GWELD TWF SYLWEDDOL AR DRAWS GÊM Y MERCHED YN Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF, O RAN NIFEROEDD Y CYFRANOGWYR A BOD YN FWY GWELADWY.
>
> MAE'N BRYD ADEILADU AR Y MOMENTWM YNA A GWIREDDU POTENSIAL PÊL-DROED Y MERCHED.
>
> *Sophie Ingle*

# GWIREDDU EIN CYNLLUN

## MWY NA GÊM

Gall pêl-droed newid bywydau er gwell. Mae gan y gamp y nerth i gysylltu pobl ac effeithio ar eu bywydau mewn ffyrdd cadarnhaol.

Nid gêm yn unig yw pêl-droed: mae'n sbarduno newid ac mae ganddi'r gallu i effeithio ar ein cenedl er gwell. Ond mae angen i'r ffordd y gweithredwn fel sefydliad addasu a datblygu er mwyn bod yn berthnasol a phriodol heddiw ac yfory. Mae angen i ni ryddhau a harneisio'r potensial sydd gan bêl-droed i drawsnewid Cymru i fod y lle gorau y gall fod.

Nid yn unig y mae i bêl-droed fanteision iechyd corfforol amlwg, ond mae hefyd i'r gamp fanteision lles ac iechyd cymdeithasol. Mae'n hybu hunan-barch a chryfhau cydlyniant cymdeithasol mewn cymunedau.

Mae'r dyheadau sydd wedi'u cyflwyno yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn llywio ein gweledigaeth ar gyfer pêl-droed yng Nghymru. Deallwn bwysigrwydd ein rôl yn niwylliant Cymru yn ogystal ag effaith ein gweithgareddau wrth hyrwyddo Cymru ddwyieithog. Ymdrechwn i gyflawni camp sy'n cynorthwyo Cymru iachach sy'n fwy cydradd a chyfrifol yn fyd-eang.

Rydym yn rhannu'r uchelgeisiau a nodwyd yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, a deallwn y rôl y gall pêl-droed ei chwarae wrth greu presenoldeb rhyngwladol cryf ac arddangos Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Rydym yn cydweithio tuag at greu Cymru yr ydym oll yn falch o'i hystyried yn gartref, heddiw ac am genedlaethau i ddod. Cenedl groesawgar sy'n ein tynnu oll ynghyd.

Cymru well ar gyfer y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

## GORAU CHWARAE CYD CHWARAE

Ymdrechwn i wthio'r ffiniau ac ehangu ein gorwelion i greu gwaddol parhaol i bêl-droed yng Nghymru, gan ddwyn cenedl gyfan ynghyd i ddathlu'r gêm.

Ond ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Drwy gydweithio yn unig y mae modd gwireddu ein gweledigaeth. Yn ein hymdrechion i gyrraedd ein nodau, rhaid i ni gyfuno ein hangerdd a'n dyfeisgarwch ac ymdrechu i fod yn gefnogol, empathig ac, yn fwy na dim, yn gydweithredol.

Gwyddom y gallwn gyflawni cymaint mwy gyda'n gilydd drwy gydweithio â chlybiau, cynghreiriau a sefydliadau, gan fedi ffrwyth ein sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau cyfunol.

Yn fwy nag erioed, mae angen i ni archwilio a datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn ennyn cefnogaeth nid yn unig y rhai sy'n ymwneud â phêl-droed yn draddodiadol, ond partneriaid newydd a chyffrous hefyd.

Bydd y dulliau aml-bartner hyn yn ein galluogi i gryfhau a thyfu'r gêm i bawb, a gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth o Gymru leol fyd-eang.

Ni fu'r syniad hwn erioed mor bwerus, nac angenrheidiol.



# ADEILADU AR YSBRYD CYMREIG

# GWIREDDU EIN CYNLLUN

## EIN RHWYDWAITH O BARTNERIAID BYD-EANG A LLEOL

### FIFA

Sefydlwyd y Fédération Internationale de Football Association ym 1904. Mae'n seiliedig yn Zurich a chaiff ei lywodraethu gan gyfraith y Swistir. Gyda 211 o aelod-gymdeithasau, ei nod, fel sydd wedi'i nodi yn ei Statudau, yw gwella pêl-droed yn barhaus.

### CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU

Bu Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn rhan greiddiol i bêl-droed ers 1876, a dyma'r drydedd gymdeithas hynaf yn y byd. Mae ganddi ddyletswydd i ofalu am bêl-droed yng Nghymru, ynghyd â hyrwyddo a datblygu'r gamp, ac mae'n aelod o FIFA ac UEFA. Y mae hefyd yn un o'r pum corff sy'n aelodau o IFAB, gwarchodwyr 'Deddfau'r Gêm'.

### CYNGHREIRIAU

Mae'r cynghreiriau yn cynnwys sefydliadau sy'n trefnu a chynnal naill ai cystadleuaeth gynghrair dymhorol neu gyfres o gynghreiriau i glybiau.

### UEFA

Mae gan Undeb Cymdeithasau Pêl-droed Ewrop 55 o aelod-gymdeithasau cenedlaethol, a dyma'r corff gweinyddol ar gyfer pêl-droed yn Ewrop a rhan o Asia. Mae UEFA yn un o chwe chonffederasiwn cyfandirol sy'n rhan o FIFA, corff llywodraethu pêl-droed y byd.

### YMDDIRIEDOLAETH CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ym 1996, ac mae'n elusen gofrestredig sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru i gyflawni gweledigaeth, nodau a gweithredoedd pêl-droed Cymru.

### CYMDEITHAS ARDAL

Mae Cymdeithas Ardal yn gymdeithas bêl-droed ranbarthol sy'n gyfrifol am drefnu cystadlaethau a hyrwyddo, meithrin a gwella'r gamp. Mae chwech o Gymdeithasau Ardal yng Nghymru ar hyn o bryd, sef: Cymdeithas Bêl-droed Canolbarth Cymru; Cymdeithas Bêl-droed Sir Gwent; Cymdeithas Bêl-droed Gogledd-ddwyrain Cymru; Cymdeithas Bêl-droed Arfordir Gogledd Cymru; Cymdeithas Bêl-droed De Cymru; a Chymdeithas Bêl-droed Gorllewin Cymru.



### CYMDEITHAS BÊL-DROED YSGOLION CYMRU

Ffurfiwyd Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru ym 1911 i annog datblygiad disgyblion drwy gyfrwng pêl-droed. Mae'n trefnu cystadlaethau i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â phêl-droed ryngwladol.

### CHWARAEON CYMRU

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Chwaraeon Cymru yw'r corff allweddol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar chwaraeon ac mae'n cynorthwyo i gyflawni ei blaenoriaethau strategol drwy adroddiad Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a Strategaeth Chwaraeon Cymru.

### FOOTBALL FOUNDATION

Y Football Fountation yw elusen Uwch Gynghrair Lloegr, Cymdeithas Bêl-droed Lloegr a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n helpu cymunedau i wella eu cyfleusterau pêl-droed lleol drwy grantiau. Mae'n dod â phartneriaid pêl-droed allweddol ynghyd i hybu gweledigaeth gyffredin, sef gwella cyfleusterau pêl-droed ar draws Cymru a Lloegr. Bydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn ceisio cryfhau'r bartneriaeth hon drwy ei chynllun i fuddsoddi mewn cyfleusterau.

### DARPARWYR ADDYSG

Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth ac yn gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau trwy weithio gyda phartneriaid o'r sector addysg, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch.

### PARTNERIAID MASNACHOL

Mae cydweithio â'r sector masnachol yn darparu ffrwd o incwm yn ogystal ag arbenigedd, gweithgarwch penodol a gwasanaethau eraill er mwyn cefnogi'r gêm yng Nghymru.

### LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru. Bydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru i annog datblygiad polisïau yn y dyfodol sy'n galluogi i gyflawni ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau cyffredin yn effeithiol.

### AWDURDODAU LLEOL

Mae 22 awdurdod lleol Cymru yn chwarae rôl ganolog wrth lywodraethu Cymru, gan ddarparu'r arweiniad lleol a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar eu cymunedau. Mae eu rhan yn cynorthwyo clybiau cryfach, cynnal a datblygu gwell cyfleusterau, a darparu gwasanaethau allweddol eraill, o arwyddocâd mawr i bêl-droed a Chymru.

### COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd i sicrhau ein bod yn cyfrannu at Gymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

### Y CYFRYNGAU

Mae'r cyfryngau yng Nghymru yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg, ac yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo pêl-droed a diwylliant Cymru.

### PARTNERIAID CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

Mae ymwneud â mentrau cymdeithasol a diwylliannol nid yn unig yn rhoi llwyfan i ni wella ein hapêl i'r sector masnachol, ond y mae hefyd yn caniatáu i ni ymgysylltu'n well â'n cynulleidfaoedd a chyfathrebu ein negeseuon allweddol i gyfoethogi pêl-droed yng Nghymru.

I gael mwy o wybodaeth am bêl-droed yng Nghymru:

Cymdeithas Bêl-droed Cymru
Y Ganolfan Elît Genedlaethol a Phencadlys
Vale Resort
Hensol
Bro Morgannwg
CF72 8JY

faw.cymru

Twitter: @FAWales

Facebook: @FAWales

LinkedIn: Football Association of Wales

Instagram: @fawales

